**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 17 Mai 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| C E Lloyd | J A Raynor | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, A S Lewis a/ac M Sherwood

---

**179. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad(au) canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 187 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

**180. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018.

**181. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**182. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**183. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 184. Adroddiad ar Ddiogelu PD&BC - Gwasanaethau Cydweithio dros Blant.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu adroddiad a oedd yn amlinellu cynnydd y pwyllgor mewn perthynas ag ymrwymiad y cyngor i barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n cydweithio dros blant.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r adborth gan y pwyllgor.

## 185. Adolygiad o'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar gyfer y drafft o'r Polisi Trwyddedu diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Ddatganiad Polisi'r cyngor ar gyfer Trwyddedu;

2) Cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyn adrodd yn ôl a mabwysiadu.

## 186. Adolygu'r Polisi ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar gyfer y drafft o'r Polisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi'r cyngor ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw;

2) Cadw'r “ardaloedd perthnasol” at ddibenion penderfynu ar geisiadau am sefydliadau rhyw a'r “nifer priodol” o sefydliadau rhyw ar gyfer pob ardal;

3) Cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyn adrodd yn ôl a mabwysiadu.

## 187. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod  Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Margaret Greenaway |
| 2) | Ysgol Gynradd y Crwys | Donna Woods |
| 3) | Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Barbara Miller |
| 4) | Ysgol Gynradd Hendrefoelan | Pamela Cole |
| 5) | Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant | Laura Northey |

## 188. Mwy o leoedd wedi'u cynllunio yn Ysgol Arbennig Pen-y-bryn.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r lleoedd cynlluniedig yn Ysgol Arbennig Penybryn o fis Ebrill 2019.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais i ymgynghori ar gynyddu nifer y lleoedd cynlluniedig yn Ysgol Arbennig Penybryn o fis Ebrill 2019;

2) Cytuno i geisio cyllid refeniw corfforaethol ychwanegol i gefnogi sefydlu'r nifer cynyddol hwn o leoedd cynlluniedig;

3) Y dylai'r Cabinet ystyried yr ymatebion yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 189. Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru 2018-2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Adfywio Rhanbarthol De-orllewin Cymru i gyflawni Rhaglen Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir 2018-2021 Llywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.17 pm

**Cadeirydd**

Cyhoeddedig: 17.05.2018